

# ytafod

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS YR IAITH  
RHIFYN 3.24 • GWANWYN 2006 • £1

**DY IAITH DY HAWL!**

Y DIWEDDARA O'R YMGYRCH DEDDF IAITH



## CARCHARU GWENNO

**AELOD CYNTA YN Y DDALFA ERS DENG MLYNEDD**

**HEFYD: ACHOSION LLYS  
GWYN AC ANGHARAD**

**RHIFYN CYFARFOD CYFFREDINOL  
MAWRTH 25 ABERYSTWYTH**

# Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 2005-2006

## Swyddogion

### Cadeirydd

Steffan Cravos – cadeirydd@cymdeithas.com

### Is-Gadeirydd Cyfathrebu a Lobio

Hedd Gwynfor – hedd@cymdeithas.com

### Is-Gadeirydd Ymgyrchu

Heledd Gwynndaf – heledd@cymdeithas.com

### Trysorydd

Danny Grehan – danny@cymdeithas.com

### Codi Arian

Aled Elwyn Jones – aled.jones@cymdeithas.com

### Aelodaeth

Osián Rhys – osian@cymdeithas.com

### Mentrau Masnachol

Gwyn Sion Ifan – gwyn@cymdeithas.com

### Y Tafod

Ifan Morgan Jones – ifan@cymdeithas.com

### Gwefan a Dylunio

Iwan Standley – iwan@cymdeithas.com

### Adloniant

Owain Schiavone – adloniant@cymdeithas.com

### Ymgyrchoedd

### Cymunedau Rhydd: Cadeirydd

Huw Lewis – huw@cymdeithas.com

### Cymunedau Rhydd: Ymgyrchu

Menna Machreth – menna@cymdeithas.com

### Cymunedau Rhydd: Cyfathrebu a Lobio

Dewi Snelson – dewi.snelson@cymdeithas.com

### Cymunedau Rhydd: Polisi

Dafydd Tudur – dafydd.tudur@cymdeithas.com

### Deddf Iaith: Cadeirydd

Catrin Dafydd – catrin@cymdeithas.com

### Deddf Iaith: Ymgyrchu

Lowri Larsen – lowri@cymdeithas.com

### Deddf Iaith: Cyfathrebu a Lobio

Lois Barrar – lois@cymdeithas.com

### Deddf Iaith: Cyfathrebu a Lobio

Hywel Griffiths – hywel@cymdeithas.com

### Deddf Iaith: Polisi

Sian Howys – sian@cymdeithas.com

### Addysg: Cadeirydd

Ffred Ffransis – ffred@cymdeithas.com

### Addysg: Ymgyrchu

Bethan Jenkins – bethan@cymdeithas.com

### Addysg: Cyfathrebu a Lobio

Rhys Llwyd – rhys@cymdeithas.com

### Addysg

Aled Davies – aled@cymdeithas.com

### Gwreiddiwrch yn y Gymuned: Cadeirydd

Rhodri Davies – rhodri@cymdeithas.com

### Rhanbarthau

### Morgannwg-Gwent: Cadeirydd

Geraint Criddle – geraint@cymdeithas.com

### Morgannwg-Gwent: Ysgrifennydd

Branwen Brian – branwen@cymdeithas.com

### Caerfyrddin-Penfro: Cadeirydd

Sioned Elin – sioned@cymdeithas.com

### Caerfyrddin-Penfro: Ysgrifennydd

Catrin Howells – catrin.howells@cymdeithas.com

### Ceredigion: Cadeirydd

Angharad Clwyd – angharad.clwyd@cymdeithas.com

### Gwynedd-Môn: Cadeirydd

Angharad Tomos – angharad@cymdeithas.com

### Clwyd: Cadeirydd

Dewi Jones – dewi@cymdeithas.com

### Swyddogion Cyflogedig

### Cenedlaethol

Dafydd Morgan Lewis – dafydd@cymdeithas.com

### Gogledd

Dewi Snelson – dewi.snelson@cymdeithas.com

### Dyfed

Angharad Clwyd – angharad.clwyd@cymdeithas.com

### Morgannwg-Gwent

SWYDD YN WAG – cysylltwch â geraint@cymdeithas.com am fanylion



**CLAWR GWENNO** TEIFI YN CYRRAEED  
ADRE AR ÔL EI CHYFNOD YN Y CARCHAR  
**LLUN MARIAN DELYTH**

## ytafod

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS YR IAITH

CYFROL 3 — RHIFYN 24  
(GWANWYN 2006)

ARGRAFFWYD GAN WASG MORGANNWYG  
**GOLYGYDD** IFAN JONES  
**DYLUNIO** IWAN STANDLEY  
**LLUNIAU** MARIAN DELYTH,  
STEFFAN CRAVOS, IWAN STANDLEY,  
HEDD GWYNFOR, RHYS LLWYD, BBC  
**CARTŴNS** IFAN JONES

Os oes gennych chi unrhyw straeon neu newyddion o'ch ardal chi, danfonwch nhw atom naill ai trwy'r cyfeiriad uchod, neu at **tafod@cymdeithas.com**. Am fanylion am ein prisiau hysbysebu, cysylltwch â'r brif swyddfa.



**PRIF SWYDDFA** PEN ROC, RHODFA'R MÔR,  
ABERYSTWYTH, CEREDIGION, SY23 2AZ  
**FFÔN** 01970 624501  
**FFACS** 01970 627122  
**E-BOST** SWYDDFA@CYMDEITHAS.COM  
**Y WE** WWW.CYMDEITHAS.COM

# O'R GADAIR

## SAFIAD GWENNO

Gair gan y Cadeirydd, **Steffan Cravos**

**Y**m mis Ebrill 2005 cafwyd Gwenno Teifi yn euog gan ynadon Hwlfordd o achosi difrod i eiddo Radio Sir Gâr yn Arberth a gorchymynnwyd iddi dalu costau llys ac iawndal hyd werth £200 – ond gwrthododd Gwenno dalu iawndal i'r Orsaf Radio a fu'n destun ymchwiliad gan Ofcom llynedd oherwydd ei diffyg defnydd o'r Gymraeg.

Yn llys ynadon Caerfyrddin ar y 13eg o Chwefror, cafodd Gwenno ei charcharu am 5 niwrnod, yn yr union fan lle cyhoeddwyd llwyddiant ei thadcu, Gwynfor Evans, deugain mlynedd ynghynt. Yn ei datganiad i'r Ynadon dywedodd Gwenno:

"Mae'r hen Ddeddf laith yn perthyn i'r oes a fu. Rhaid wrth Ddeddf laith newydd a fydd yn sicrhau lle i'r Gymraeg yn holl gyfryngau a datblygiadau technolegol y ganrif newydd."

Yn dilyn safiad dewr ac gwyddorol Gwenno, dwi wedi

penderfynu hefyd wrthod talu'r £200 y ces i fy nirwyo amdano. Fe wnes i dderbyn rhybudd terfynol i dalu y £200 llynedd. Roedd y ddogfen honno'n uniaith Saesneg – yn torri cynllun iaith Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, a Deddf laith 1993! Nes i gwyno i Wasanaeth y Llysoedd a Bwrdd yr Iaith a derbyn ymddiheuriad swyddogol gan y llys.

Dwi'n disgwyl derbyn fy nghwys am beidio talu yn y misoedd nesaf a byddaf yn mynd i'r llys a gwrthod talu. Rydw i wedi meddwl yn ddwys am hyn ac yn barod i gael fy ngharcharu er mwyn tynnu sylw at yr angen am ddeddfwriaeth newydd.

Mae'r Blaid Lafur yn parhau i anwybyddu'r ffaith i Rhodri Morgan ddatgan yn 1993 ei fod o blaid yr angen am ddeddfwriaeth bellach ym maes y Gymraeg. Gydag agoriad y senedd dryloyw newydd, a phobl Cymru yn gallu

gweld trwy'r ffenestri i gyd, rhaid sicrhau atebolrwydd i'n pobl. DEWCH GYDA NI! ☛

### I GWENNO

**Heno, mae Gwenno'n gaeth  
Yn aberth dros yr heniath,  
Bloeddiwn ei henw hi,  
"Cyfiawnder i Gwenno Teifi"  
I sgwar Caerfyrddin yn llu  
Awn ag angerdd cefnogi,  
Blynnyddoedd brwd o frwydro  
Heddiw wedi gweld tro.  
Mewn cell, mae'n well nag wyllo,  
Codi pen, codi calon a dwylo  
Codi stwr, tynnu sylw a bloeddiwn  
Yn un haid, codwn enw Gwenno.**

**Mae atsain deugain mlynedd cynt  
Yn dal i'w deimlo yn y gwynt  
Yr un yw'r galon, yr un yw'r gwaed,  
A Gwenno'n dilyn ôl ei draed.**

Sara Davies

## CATMOD YR IAITH☛

MAE'N RHAID EICH CLOI CHI YMAITH LLE  
NA ALL Y CYHOEDD EICH GWELD CHI!

MAE'N RHAID EICH CLOI CHI YMAITH LLE  
MAE'R CYHOEDD YN GALLU EICH GWELD CHI!



# STATWS

## BLWYDDYN NEWYDD DEDDF IAITH NEWYDD

Ar ddechrau'r flwyddyn, bu **Hywel Griffiths** (a sawl un arall) yn chwilio am wasanaeth (a choffi) yn Gymraeg ar strydoedd Caerdydd

**W**edi'r gyfres o weithredoedd tor-cyfraith gan 16 o aelodau'r Gymdeithas cyn y Nadolig, roedd hi'n hollbwysig dangos i lywodraeth Lafur Rhodri Morgan fod cefnogaeth i Ddeddf Iaith Newydd yn ymestyn ar draws Cymru gyfan. Ar yr ail o Ionawr ar Stryd y Frenhines yng Nghaerdydd, daeth 200 o bobl ynghyd i weiddi, gorymdeithio, meddiannu a chodi sticeri er mwyn sicrhau fod y neges yma'n cyrraedd coridorau caeedig Bae Caerdydd.

I ddechrau, wrth gofgolofn Aneurin Bevan, bu Catrin

Dafydd, cadeirydd grwp Deddf Iaith Newydd y Gymdeithas yn annerch y dorf. Gosododd y cyd-destun ar gyfer y rali, ac atgoffa pawb fod y Gymdeithas wedi cyhoeddi cadoediad yn yr ymgyrch weithredol er mwyn trafod gyda'r pleidiau gwleidyddol, gan gynnal cyfarfod cyhoeddus â chynrychiolwyr o bob plaid cyn diwedd y mis.

Gan gadw'n drîw i'w hagwedd annemocrataidd, anghyfrifol, gwrthododd y Blaid Lafur anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod yma. Diolch byth fod cynifer o Gymry wedi dod at ei gilydd i gadw'r sefyllfa ar flaen yr agenda felly!

Prif siaradwr y rali oedd Steffan Webb, prif weithredwr Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Yn ogystal â datgan ei gefnogaeth lwyr i Deddf Iaith Newydd, prif fyrdwn araith Steffan oedd ein hatgoffa o beth yn union oedden ni eisiau wrth alw am Ddeddf Iaith Newydd. Trwy ailadrodd y fonllef uchel "beth y'n ni moyn... pryd y'n ni moyn e" fe'm hatgoffwyd yn gyntaf ein bod mewn gwirionedd yn gofyn am hawliau. Rydym yn gofyn am yr hawl sylfaenol i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'n bywyd bob dydd, i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r hawl i reithgor sy'n deall Cymraeg. Ry'n ni'n gofyn am yr hawl i bawb sydd yn dewis ymgartrefu yng Nghymru allu mwynhau a gwerthfawrogi ein treftadaeth gyffredin ni.

Yn ail fe'n hatgoffwyd ein bod yn gofyn am statws i'r Gymraeg. Rydym yn gofyn am sefydlu'r Gymraeg fel priod iaith Cymru, a sicrhau lle iddi fel iaith swyddogol yng Nghymru. Ry'n ni'n galw ar lywodraeth Lafur y Cynulliad i gydnabod arwyddocaeth y statws yma drwy greu swydd



# “ry ni’n gofyn am yr hawl sylfaenol i ddefnyddio’r Gymraeg ym mhob agwedd o’n bywydau”

Comisiynydd y Gymraeg i ddatblygu gwaith Bwrdd yr Iaith, ac i sefydlu cyngor ar gyfer y Gymraeg sydd yn ddemocrataidd a chynhwysol. Nid yw dyfarnydd di-rym, di-ddannedd yn ddigon da.

Wedi’r anerchiad, dechreuwyd ar yr orymdaith. Trwy lwc, roedd cofgolofn Aneurin Bevan ychydig gamau o siop Orange, cwmni sydd wedi gwrthod datblygu unrhyw wasanaeth cyflawn Cymraeg, ac sydd wedi anwybyddu galwadau’r Gymdeithas ers degawd a mwy. Meddiannwyd y siop, codwyd sticeri, ac fe gafwyd trafodaeth adeiladol gyda’r rhywogaeth brin honno – gweithiwr Orange sydd yn siarad Cymraeg! Wedi cytuno i gyfarfod â’r rheolwr, symudwyd ymlaen ar hyd Heol y Frenhines gan godi sticeri ar gymdeithas adeiladu Woolwich, cyn meddiannu siop Dixons, lle cafwyd cyngerdd fechan gan Gôr y Cochion a oedd wedi dod i gefnogi’r achos. I swm l’r Gad a Finlandia, a bonllefi Ddeddf Iaith Newydd, cytunodd y rheolwr i gyfarfod.



Ymlaen i Starbucks, lle bathwyd slogan sydd yn siwr o droi’n glasur cyn pen dim – Coffi yn Gymraeg. Codwyd sticeri unwaith eto, ac wedi sicrhau cyfarfod arall gyda rheolwyr y siop, daeth y rali i ben.

Wrth gwrs, fe fyddai’n haws i’r cwmnïau yma ddarparu gwasanaeth trwy

gyfrwng y Gymraeg pe byddai deddfwriaeth yn eu gorfodi, a pe byddai cymorth ymarferol ar gael o du’r Cynulliad. Ac er fod pennau’r Blaid Lafur yn ddwfn, ddwfn yn nhywod Bae Caerdydd, mae’r consensws cenedlaethol a amlygwyd yn y cyfarfod cyhoeddus a ddilynodd rali’r Calan wedi sicrhau na allan nhw anwybyddu ein galwadau mwyach.

Mae’n hollbwysig fod yr ymgyrch yn dwysáu eleni, er mwyn sicrhau mai 2006 fydd blwyddyn Deddf Iaith Newydd, ac y gallwn, o’r diwedd gael ein “coffi yn Gymraeg!” ☘

» **Mwy am gyfarfodydd lobbio, protestiadau ac achosion llyso ymgyrch Deddf Iaith Dros y tudalennau nesaf. Am y newyddion diweddaraf, ewch i’r wefan:**  
[cymdeithas.com/deddfiaith](http://cymdeithas.com/deddfiaith)



# STATWS



## ANGHARAD YN LLONGYFARCH YNADON CAERDYDD

**A**r ddiwedd achos arall yn erbyn un o weithredwyr yr ymgyrch Deddf Iaith fe gododd aelodau Cymdeithas yr Iaith ar eu traed yn llys ynadon Caerdydd a llongyfarch yr ynadon am iddynt ddanfon arwydd clir at y Cynulliad trwy osod y ddirwy leiaf hyd yma ar unrhyw ddiffnydd yn yr ymgyrch ddiweddar. Yno i fynegi ei chefnogaeth i'r ymgyrch roedd yr actores Iola Gregory a nifer o aelodau'r cyhoedd.

Cafodd Angharad Clwyd, 27 oed o Bontweli, ddirwy o £50 a gorchmynnwyd iddi dalu £200 yn unig o iawndal er bod y llywodraeth wedi hawlio dros £700. Mewn datganiad i'r llys dywedodd Angharad: "Y ddifrod dwi wedi fy nghael yn euog ohono yw peintio'r geiriau 'Deddf Iaith Dyma'r Cyfle' ar furiau adeilad Llywodraeth y Cynulliad fel her iddynt. Mae gen i blentyn dwyflwydd oed a dwi am iddo dyfu mewn gwlad lle fydd yn rhydd i ddefnyddio ei famiaith ym mhob rhan o'i fywyd.

"Mae'r hen Ddeddf Iaith yn perthyn i'r gorffennol – pan roedd y gwasanaethau oll yn y sector gyhoeddus. Mae angen Deddf Iaith Newydd i sicrhau cyfle i'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd gan y darparwyr newydd a lle i'r iaith yn holl ddatblygiadau technolegol y ganrif newydd hon. Mae angen Deddf a fydd yn berthnasol i anghenion fy mab." ☺

**Uchod: Iola Gregory ac Angharad Clwyd tu allan i'r llys**

### 16.11.05 PARC CATHAYS

**'D**EDDF IAITH' a Thafod, mewn du, a thri munud yn ddiweddarach... "You are under arrest on suspicion of causing criminal damage", a chyn imi gael cyfle i ddeud "it wasn't me officer" (sef be groesodd fy meddwl i'w ddweud), a chan nad oedd neb arall bron o gwmpas, a minnau a chan o baent du yn fy llaw, a hwylie ddim rhy dda ar y plisman (roedd ei wraig ag yntau newydd gael babi, a toedd hwnnw ddim wedi cysgu rhyw lawer noson cynt!) roeddwn mewn gefynnau, yng nghefn yr 'oink vaggen', ac yna ymhen chydig funudau roeddwn yng nghell ddreulld rhif pedwar, y 'Central'.

Os fyddwch chi yne rhyw dro, mae o'n deud yn y 'Welsh Version – Notice of Entitlements' Page One, fod gennych hawl i fwyd a diod digonol, felly dyma fentro gofyn –

"Ga'i de *heb* lefrith os gwelwch yn dda?"

"The machine makes *white* tea only."

"O iawn," medde fi, a dyma fo nôl – hefo coffi du!

Chwe awr, cyfweliad saith munud, olion bysedd, dim DNA (cotton buds wedi rhedeg allan!)

# STATWS

## GWEITHRED GWYN

Y deuddegfed berson i weithredu yn erbyn y llywodraeth yn ddiweddar oedd **Gwyn Sion Ifan** o'r Bala, a chafodd ddirwy drom am ei ran yn yr ymgyrch

yn ddiweddarach, dyma nhw'n deud:

"Without lawful excuse you damaged a WELSH OFFICE BUILDING belonging to THE WELSH OFFICE" (pwy arall yn de?) a "to prevent further offences you are not to be within 100 metres of any Welsh Office building" – dyma fi o 'no!

Sori'n de, ond doedd genna'i ddim mynedd treulio hanner diwrnod arall yng nghell rhif pedwar yn disgwyl i rywun ddod i fy nghyhuddo yn y Gymraeg, a dyma fo!

### 26.01.06 LLYS YNADON CAERDYDD

"Gwrthod pledio," medde fi. Darllen y cyhuddiad, a gwrandawriad astud gan bawb heblaw am yr heddwas nath fy arestio – roedd hwnnw'n cysgu'n drwm (y babi tri mis oed erbyn hyn yn ei gadw'n effro yn y nos beryg!)

"Rydym yn hawlio £644 a TAW, a £150 o iawndal," medde'r erlyniad.

"Gawn ni weld," medde fi  
Dyma'r dacteg y mae'r erlyniad wedi ei defnyddio yn yr achosion llys blaenorol – hawlio symiau mawr, a gweithredwyr yn gorfod

wynebau costau a dirwyon uchel o £1,100, £850, £750 ac yn y blaen, a hynny am nad oes dogfennau manwl wedi'u cyflwyno i hawlio'r wir gost.

"Dwi'n gwrthod talu'r swm," medde fi, "gan nad yw'r ddogfen yn un ddilys ac mai ffigyrau wedi'u rhoi at eu gilydd yw'r rhain, yn hytrach nac anfoneb wedi'i dadansoddi'n llawn."

Wedi i Ray Davies roi tyst cymeriad drosta'i – diolch yn fawr iawn Ray! – a hir ddisgwyl i'r fainc ddychwelyd i'r llys, dyma'r cadeirydd yn datgan, "rydym yn eich dirwyo £100, costau o £100 a iawndal o £250; £450 i gyd. Rwan (neu 'hawr' ddudoch o dwch?) sut ych chi'n bwriadu talu?"

"Hoffwn dalu dros gyfnod o amser," medde fi.

"Fydd hynny ddim yn bosib," medde fo, "rydym yn awyddus i chi dalu'n syth!"

"Cymeryd plastig?" medde fi.  
"lawn," medde fo.

Ac felly y bu hi – lawr y grisiau i dalu, ond cyn i mi fynd, ac ar ôl i'r fainc fynd allan, ces gyfle i ddeud wrth yr erlyniad fod eu hachos yn erbyn Steffan Cravos yn Hwlfordd yn un amheus o'r dechre, a dyna be oedd y canlyniad i'w ddisgwyl o achosion amheus yn erbyn aelodau'r Gymdeithas!

Beth a welwyd tros gyfnod yr achosion llys yn ddiweddar oedd dirwyon trwm i weithredwyr, a dim llawer o amser i'w talu, ac



# STATWS

os fydde rhywun yn methu talu ar amser, yna, yn fuan iawn, mi fydde'r hefis yn galw yn eich cartref ac yn dwyn lot fawr o eiddo a'i werthu er mwyn talu costau dychmygol yr erlyniad.

Un o 16 o'n i (ac mae achos gweithredwraig arall i ddot yn fuan), a choeliwch fi, tydi gweithredu yn dod ddim haws, er i chi weithredu o'r blaen. Mae'r nerfau yn dychwelyd cyn gweithredu, a chyn yr achos llys. Ond tra ma "prif weinidog" Cymru yn dweud fod trafod dyfodol y Gymraeg yn "boring",

yna ma rhaid gweithredu!

Hoffwn ddiolch i bawb a'm cefnogodd cyn, yn ystod, ac ar ôl yr achos – roedd yn gwneud pethe'n llawer haws, yn enwedig yn y llys.

Dwi'n cofio deud yn ystod rali Ta-Ta Tôris, o bosib na fyddem yn dychwelyd i'r Swyddfa Gymreig. Wel Rhodri Morgan – mi *ryden* ni'n ôl! ☺

» **Bu'r cyfnod o weithredu cyn y Nadolig yn effeithiol er mwyn tynnu'r sylw at yr angen am ddeddfwriaeth newydd ym maes y**

**Gymraeg. Mae eleni yn flwyddyn dyngedfennol i'r iaith. Cwestiwn o hawliau ydyw'r ymgyrch hon. Tra bo llywodraeth Lafur y Cynulliad yn parhau i anwybyddu'r angen am drafodaeth maent yn diystyru hawliau pobl i'r Gymraeg – hawliau pawb sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref iddyn nhw. Mae addewidion gwag y Blaid Lafur yn iaith Pawb yn parhau i dystio i'w diffyg ymroddiad a'u gweledigaeth nhw tuag at y Gymraeg. Cysylltwch â ni i ymuno gyda'r ymgyrch: [deddf-iaith@cymdeithas.com](mailto:deddf-iaith@cymdeithas.com)**

## GWRTH-BLEIDIAU'N GYTŪN

Mewn cyfarfod pwysig yng Nghaerdydd, mae **Sian Howys** yn gweld arwyddion consensws am yr angen i adolygu'r Ddeddf Iaith bresennol


Gyda waliau Swyddfa Llywodraeth Cymru yn saff am dipyn yn wyneb ein cadoediad, cynhaliwyd cyfarfod lobio mawr yng Nghanolfan y Mileniwm ar Ionawr 24ain. Pwrpas y noson oedd roi llwyfan i'n dadleuon dros Ddeddf Iaith trwy gyflwyniad Huw Lewis a'r Athro Colin Williams, ac yna holi llefarwyr pleidiau'r Cynulliad am eu hymateb. Fel trôdd pethe mas daeth Owen John Thomas ar ran Plaid Cymru, Eleanor Burnham ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, Lisa Francis ar ran y Toriaid ac fe fethodd neu fe wrthododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddanfon cynrychiolydd ar ran y Blaid Lafur. Cafodd agwedd drahaus Llafur – sylwadau Cathy Owens yn symbol amlwg o hyn – ei chondemnio'n hallt gan siaradwyr y noson. Ond er

gwaethaf absenoldeb Llafur, does dim dadl na fu'r cyfarfod yn un hynod lwyddianus. Llund stafell o gynulleidfa, holi bywiog gan y cyfreithiwr Hywel James, sêl bendith ar ein gofynion gan John Elfed Jones, cadeirydd cyntaf Bwrdd yr Iaith, cwestiynau a sylwadau defnyddiol gan y gynulleidfa, ac yn allweddol, arwyddion consensws oddi wrth y gwrth-bleidiau am yr angen i adolygu Ddeddf Iaith 1993 a symud tuag at ddeddfwriaeth newydd effeithiol.

Yn amserol iawn, wythnos cyn y cyfarfod fe gyhoeddodd Bwrdd yr Iaith ei bapur safbwynt 'Sefyllfa Ddeddfwriaethol y Gymraeg'. Mae'r papur yn cydnabod yn glir yr angen am ddatblygu deddfwriaeth bellach ac yn cydyfnd gyda'r rhan fwyaf o'n gofynion. Yr eironi yw bod

hi wedi cymryd mor hir i gael datganiad o'r fath. Ond, mae'n dweud y cyfan fod y Bwrdd wrth wynebu ei ddiwedd yn gorfod cydnabod grym dadleuon "y winjars" fel galwodd Dafydd Êl aelodau Cymedithas yr Iaith rai blynyddoedd yn ôl.

Y sefyllfa nawr fel y gwelwn ni hi yw bod rhaid i'r gwrthbleidiau sicrhau nad yw'r llywodraeth yn cario mlaen gyda'i gynlluniau i ddileu'r Bwrdd heb dderbyn sicrwydd bod y llywodraeth yn cytuno i adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol gyda'r bwriad o lunio deddfwriaeth newydd gynhwysfawr. Mae'n holl bwysig peidio derbyn cynllun y dyfarnydd, a galw am gomisiynydd iaith ynghyd â deddf fydd yn sefydlu hawliau clir i bawb yng Nghymru fedru defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. ☺



**People in Wales want rights...**  
That is why it is important to confer these rights on the Welsh language, the speakers of the Welsh language, and those who may not be Welsh-speaking themselves, but want their children to be educated in Welsh as a matter of right.

We want... a genuine Welsh Language Bill... That will be done when we revisit the question of a Welsh language measure when we are in government.

**RHODRI MORGAN, 1993**

**CADWA AT DY AIR, RHODRI**  
**KEEP YOUR PROMISE, RHODRI**

**DEDDF IAITH NEWYDD - DYMA'R CYFLE - A NEW WELSH LANGUAGE ACT - NOW'S THE TIME**  
**YMUNWCH YN YR YMGYRCH - JOIN THE CAMPAIGN - WWW.CYMDEITHAS.COM**

## BILFWRDD ENFAWR I DDATHLU AGORIAD Y SENEDD ATGOFFA RHODRI MORGAN O'I ADDEWID YN 1993

**A**r drothwy dathliadau agor Adeilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol, bu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn galw unwaith eto am Ddeddf iaith gynhwysfawr trwy ddadorchuddio bilfwrdd dychanol o Rhodri Morgan. Lleolwyd y bilfwrdd – sy'n chwech medr ar draws a thri medr o uchder – gyferbyn â mynediad cefn adeilad y Cynulliad, er mwyn sicrhau bod holl aelodau'r Cynulliad a'u staff yn gweld y neges yn glir.

Cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod hyn yn ddull addas o ddathlu dydd Gŵyl Ddewi ac agoriad adeilad y Senedd newydd. Mae hefyd yn ffordd effeithiol o atgoffa Rhodri Morgan o'r addewid a roddodd yn 1993 i gyflwyno Deddf iaith rymus.

Dyma eiriad y bilfwrdd: "People in Wales want rights... That is why it is important to confer these rights on the Welsh language, the speakers of the

Welsh language, and those who may not be Welsh-speaking themselves, but want their children to be educated in Welsh as a matter of right.

"We want... a genuine Welsh Language Bill ... That will be done when we revisit the question of a Welsh language measure when we are in government."

Yno yn cefnogi'r ymgyrch oedd Leanne Wood AC ac Owen John Tomos AC ar ran Plaid Cymru. Dywedodd Leanne Wood, gweinidog yr wrthblaid dros gyfiawnder cymdeithasol:

"Mae'r bilfwrdd hwn yn taro'r hoelen ar ei phen. Bydd yn atgoffa pobl Cymru am eiriau gwag Rhodri Morgan. Gobeithio, bydd yn ei berswadio i weithredu ar yr hyn ddywedodd ddeg mlynedd yn ôl. Mae'r Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru. Nid i siaradwyr Cymraeg yn unig y mae'r ddeddfwriaeth hon – mae i bawb sydd am weld yr heniath yn

parhau.

"Mae Rhodri Morgan wedi dangos agwedd ddirmygus iawn tuag at yr etholwyr drwy esgus, ddeg mlynedd yn ôl, ei fod yn cefnogi deddfwriaeth deg i'r Gymraeg. Mae angen i Lafur Newydd ddeffro a sylweddoli na fydd yr iaith yn goroesi heb ddeddfwriaeth i gadarnhau ei statws. Nid yw ewyllys da yn ddigon." ☛



# STATWS

## ANNWYL RHODRI LLYTHYR AGORED

Pan ymwelodd Rhodri Morgan ag Aberystwyth yn ddiweddar, aeth rhai o aelodau Cell Pantycelyn i'w gwrrd i bwysu arno unwaith eto am yr angen am Ddeddf Iaith Newydd. Mewn ymateb i'r alwad am hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg, dywedodd Rhodri fod hyn yn gwbwl wahanol i hawliau anabledd neu hawliau ar sail rhyw neu hil, gan mae "chwant" a "dewis" yw siarad y Gymraeg...

### Annwyl Rhodri Morgan,

Diolch am gytuno i gyfarfod â ni nos Fercher, Chwefror 22ain ym Mhenparcau ger Aberystwyth.

Yn dilyn ein cyfarfod hoffem godi'r pwyntiau isod gan ein bod ni yng Nghymdeithas yr Iaith Gymraeg yn anghytuno'n llwyr â'ch barn na ellir dadlau mai hawl yw cael defnyddio'r Gymraeg.

Mae modd diffinio hawl ddynol, fel y gwnaeth Maurice Cranston, fel a ganlyn: "hawl foesol gyffredin i bawb, rhywbeth a ddylai fod gan bawb, ym mhob man, ar bob adeg, rhywbeth na ellir amddifadu rhywun ohono heb beri anghyfiawnder difrifol, rhywbeth sy'n ddyledus i bob bod dynol oherwydd ei fod yn fod dynol"

Mae Cranston yn gosod tri maen prawf ar gyfer hawliau dynol, sef y dylen nhw fod yn hanfodol i fywyd dynol cyflawn; dylai fod modd eu harfer; a dylent fod yn hollgyffredinol.

Mae'n amlwg felly bod hawliau ieithyddol (a hawliau i'r Gymraeg yn benodol) yn ateb y meini prawf hyn.

Yn gyntaf, mae hawl i arfer iaith neu ieithoedd y gymuned yn hanfodol i alluogi datblygiad a mynegiant llawn yr unigolion sy'n byw yn y gymuned honno – maent yn hawliau cwbl hanfodol.

Yn ail, gyda'r ewyllys yn y lle iawn, a'r mesurau a'r adnoddau angenrheidiol i roi hyn ar waith, mae modd sicrhau bod hawliau pobl i'r Gymraeg yn cael eu harfer – maent yn hawliau cwbl ymarferol.

Ac yn drydydd, trwy ofyn am hawliau i'r Gymraeg, rydym ond yn gofyn am y math o hawliau y mae pawb arall yn y byd naill ai yn eu harfer neu yn eu hawlio – maent yn hawliau hollgyffredinol.

Cydnabyddir hawliau iaith o dan gyfraith ryngwladol. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol o ran y Gymraeg, ac yn y rhaglith i'r Siarter, datgenir yn groyw ac yn gadarn:

"the right to use a regional or minority language in private and public life is an inalienable right."

Yn raddol, mae'r sylweddoliad bod hawliau iaith yn rhan o'r agenda gydraddoldeb wedi plwyfo yng Nghymru.

Ar 25 Hydref 2000, cyflwynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg – corff cynghori statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar faterion y Gymraeg – bapur ar 'Iaith mewn Cyfle Cyfartal' i'r pwyllgor cyfle cyfartal. Ni wnaed dim yn sgil yr argymhellion yn y papur, ond fe osododd y papur sail dros gynnwys hawliau iaith fel rhan o'r agenda gydraddoldeb yn y Cynulliad.

Ym Mehefin 2002 cyflwynwyd 'Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol Cymru', gyda chefnogaeth y Cynulliad. Mae'r safon yn ymwneud yn benodol â hil, rhyw, anabledd a'r Gymraeg.

Mae hyd yn oed gyhoeddiadau Llywodraeth y Cynulliad yn awgrymu bod hawliau iaith yn rhan o'r agenda gydraddoldeb. Yn 2004 cyhoeddwyd 'Creu'r Cysylltiadau' lle ceir y datganiad: "o ran defnyddwyr unigol, rhaid i'r gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus fod yn seiliedig ar ... yr egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a chyflawni'r holl ddyletswyddau eraill o ran cydraddoldeb".

Mae trin y dimensiwn ieithyddol ochr yn ochr â rhyw, hil, anabledd, oedran, rhywioldeb ac eraill yn gyson â sylfeini hawliau dynol mewn cyfraith ryngwladol.

Er enghraifft, yn Erthygl 2 y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol ceir: "Y mae gan bawb hawl i'r holl hawliau a'r rhyddfrentiaeth a nodir yn y datganiad hwn, heb unrhyw wahaniaeth o gwbl, yn arbennig unrhyw wahaniaeth hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, barn boliticaidd neu unrhyw farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, eiddo, geni neu safle arall."

# “yr un Deddf Iaith, â'r un gwendidau, sy gyda ni nawr ag y dadleuoch chi yn ei herbyn yn 1993”

Yr hyn sy'n rhyfeddol i ni yng ngoleuni eich sylwadau nos Fercher, yw bod pennod gyfan o ddogfen bolisi Llywodraeth y Cynulliad, iaith Pawb (2003), o dan y teitl 'Yr Unigolyn a Hawliau iaith' yn delio â'r pwnc hwn.

Dwyed yn glir: “Bydd trydydd llinyn ein strategaeth yn canolbwyntio ar hawl yr unigolyn i ddefnyddio'r iaith o'u dewis”. Ac ymhellach, “bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i sicrhau bod cyfleon i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd. Yn y man cyntaf mae hyn yn golygu gwarchod a hyrwyddo hawliau unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg”.

Hynny yw, nid yn unig mae hawliau iaith unigol yn cael eu crybwyll yn y ddogfen yma a thraw (ac i ni fel Cymdeithas, credwn ei bod yn bwysig gweld hawliau iaith fel hawliau unigolion o fewn cymdeithasau yn hytrach na hawliau unigolyddol ynysig), ond maen nhw'n ffurfio trydydd llinyn strategaeth eich llywodraeth o ran y Gymraeg.

A oes newid polisi wedi bod ers ysgrifennu'r ddogfen? Neu ai geiriau teg yn unig sydd yma heb unrhyw furiad i'w gweithredu? Hoffem wybod beth yw barn bresennol Llywodraeth y Cynulliad ar hawliau i'r Gymraeg.

Awgrymasoch nad oedd modd rhoi hawliau ieithyddol yn yr un cae â hawliau pobl anabl neu hawliau hll, am mai mater o “ddewis” neu “chwant” yw'r Gymraeg. Os caf ddyfynnu eto o iaith Pawb, mae'r “fframwaith strategol” yn cynnwys “rhoi'r grym i unigolion i wneud dewis go iawn ynghylch yr iaith, neu'r ieithoedd y dymunant fyw eu bywydau trwyddynt”.

Nail ai mae dewis yn rhydd neu dyw e ddim fel ddeuwis o gwbl.

Os ydw i'n mynd i swyddfa bost a 'dewis' gofyn am stamp yn Gymraeg a dyw'r person y tu ôl i'r cownter ddim yn gallu delio â'r cais yn Gymraeg, os ydw i wedyn yn troi i'r Saesneg, dw i'n gwneud hynny achos yr unig ddeuwis arall yw mynd heb stamp. Y dewis yw stamp drwy'r Saesneg neu ddim stamp o gwbl – pa fath o ddeuwis yw hynny?

Ond nid mater o ddeuwis syml fel dewis blas hufen iâ yw dewis iaith am fod iaith yn greiddiol i'n hunaniaeth ni fel bodau dynol – yn unigolion ac yn aelodau o gymdeithas. Drwy iaith mae pobl yn profi bywyd. Pan nad yw pobl yn cael arfer eu hawliau iaith, nid ydynt yn byw bywydau cyflawn. Gwlad anghyflawn yw gwlad lle nad oes hawliau iaith.

Yn wyneb tystioaleth eich dogfennau polisi eich hun a'r ymrwmiadau cyfreithiol rhyngwladol sydd gan Lywodraeth y DU, mae'n anodd gennym ddeall sut y mae modd i chi ddadlau nad mater o hawl yw cael defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd yng Nghymru.

Yn 1993 roeddech chi'n ddigon dewr fel AS mainc gefn i ddweud y canlynol am Fesur yr Iaith Gymraeg yn Nhŷ'r Cyffredin:

“In presenting the House with a Welsh Language Bill, but not giving it a legal context within which to work in relation to aims, objectives, goals, status and rights, the Government have left the quango completely dependent on definitions of common sense, and all being good chaps and understanding roughly what the Government want in terms of doing something, but not going too far, not pressurising people too much, not spending too much money, and not conferring rights, which would be inconvenient...”

“It is important to confer these rights on the Welsh language, the speakers of the Welsh language, and those who may not be Welsh-speaking themselves, but want their children to be educated in Welsh, as a matter of right.”

Dywedasoch bryd hynny y byddid yn ailedrych ar fesur ar y Gymraeg a gwneud job iawn ohoni pan fyddai Llafur mewn grym. Erbyn hyn, nid yn unig mae Llafur wedi bod mewn grym yn y DU ers 1997, ond mae Llafur wedi bod mewn grym yng Nghymru ers 1999, a chithau'n Brif Weinidog arnom ers 2000. Ac rydym ni'n dal i aros. Yr un Ddeddf iaith, gyda'r un gwendidau, sydd gyda ni nawr ag y dadleuoch chi yn ei herbyn yn 1993.

Yr hyn sy'n glir i ni yw bod hawliau moesol i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg yn bod, fel rydych yn gwybod yn iawn, a'r hyn y gofynnwn i chi wneud nawr yw arwain drwy weithredu ar eich gair a chymryd camau i ddiogelu'r hawliau hynny yn gyfreithiol drwy basio Deddf Iaith Newydd. Mae cyfrifoldeb arbennig arnoch chi fel Prif Weinidog Cymru i sicrhau bod hawliau iaith pob dinesydd yng Nghymru yn cael eu gwarchod a'u hyrwyddo. Mae peidio â gwneud hynny gystal â hyrwyddo anghydraddoldeb ac amddifadu pobl Cymru o'u hawliau dynol.

**Yn gywir,  
Siwan Tomos**

**Cell Pantycelyn, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

# CARCHARU GWENNO

Cafodd **Gwenno Teifi**, aelod 19 oed o Gymdeithas yn iaith, ei charcharu am bum niwrnod gan Lys Ynadon Caerfyrddin – yn yr union fan (Sgwar Caerfyrddin) lle cyhoeddwyd llwyddiant ei thadcu, Gwynfor Evans, deugain mlynedd ynghynt.

Ym mis Ebrill 2005, fe'i cafwyd yn euog gan ynadon Hwlfordd o achosi difrod i eiddo Radio Sir Gâr yn Arberth a gorchmynnwyd iddi dalu costau llys ac iawndal hyd werth £200 ond gwrthododd Gwenno dalu iawndal i'r orsaf a fu'n destun ymchwiliad gan Ofcom llynedd oherwydd ei diffyg defnydd o'r Gymraeg.

Yn ei datganiad i'r ynadon dywedodd Gwenno: "Mae'r orsaf radio hon yn dwyn enw'r sir y cefais i fy magu ynddi, ac y mae eu diffyg defnydd o'r Gymraeg yn warthus. Rhaid wrth Ddeddf iaith newydd a fydd yn sicrhau lle i'r Gymraeg yn holl gyfryngau a datblygiadau technolegol y ganrif newydd."

Dyma angraffiadau Gwenno o'i chyfnod yn y carchar.

**Y**rhan waethaf am yr holl brofiad o gael fy ngharcharu oedd y daith yn y fan ddi-ffenestr draw o Gaerfyrddin i Gaerloyw. Wydden i ddim beth i'w ddisgwyl a doedd 'da fi neb i siarad â nhw ar y daith. Roedd hi'n gret gweld pawb yn y llys a'r gefnogaeth tu fas y llys wedyn yn siantio enw tadcu "Gwynfor" a fy enw inne. Ro'n i'n teimlo mod i yn y llinach gore posibl, ond mae'r cyfrifoldeb sy'n dod gyda hynny yn gallu bod yn faich anferth!

Wrth eistedd ar y gwely concriid yn fy nghell a'r golau llachar yn fy atal rhag cysgu, bues i'n pendroni uwchben pa ddiwyddiadau penodol yn fy hanes oedd yn nodi trobwynt fy ymroddiad i'r iaith Gymraeg. Ond mewn gwirionedd does na ddim trobwynt, yn hytrach ces fy magu gydag ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ein treftadaeth a'n rhan ni yn y frwydr dros ei gwarchod. Mae hanes ymgyrchu di-drais aelodau o fy nheulu ac unigolion eraill sydd wedi ymgyrchu'n ddifflino ar hyd eu bywydau er mwyn sicrhau

**« Yr heddlu'n tywys Gwenno o'r llys yng Nghaerfyrddin, ar ei ffordd i'r carchar**



# “rwy’n barod i weithredu eto os bydd angen”

parhad yr iaith wedi bod yn ysbrydoliaeth bendant.

Fel y person cyntaf i gael ei gyrru i garchar dros yr iaith yn y filawd hon rwy’n gweld pwysigrwydd y parhad i weithredu yn yr Unfed Ganrif ar Ugain yr un faint ac erioed.

Dadl nifer o bobl yw y dylen ni weithredu o fewn y gyfraith ac yn ddemocrataidd; ond mae hyn yn rhan fawr o bob ymgyrch a does dim gweithred yn digwydd heb y llythyru a’r pwysau cyfansoddiadol gyntaf.

Mwy na hyn, mynnaf bod gweithredu anghyfansoddiadol di-drais hefyd yn rhan o’r broses ddemocrataidd. Nid oes gennyf i’r grym i orfodi fy ewyllys ar unrhyw un, ond fe allaf ac fe wnes weithredu er mwyn tynnu sylw at y mater sy’n cael ei gyfeirio ato mor ddi-daro gan brif weinidog y Cynulliad fel “boring, boring, boring”, a cheisio gorfodi’r math o drafodaeth ddemocrataidd y mae’r llywodraeth yn ceisio ei osgoi.

Dwy flynedd yn ôl roeddwn i’n rhan o griw a brotestiodd yn ngorsaf radio Sir Gar oherwydd eu diffyg parch at iaith a diwylliant yr ardal maent yn ei gwasanaethu. Cefais fy arestio a’m taflu i gell am ddeuddeg awr am ddifrod troseddol. Deirgwaith cefais y teimlad brawychus o sefyll mewn bocs o flaen ynadon y llys, a’r posibilrwydd o garchar yn dod yn fwy-fwy byw bob tro. A dydd Llun, y 14eg o Chwefror, rhoddwyd dedfryd o bum niwrnod o garchar i mi.

Wrth deithio adref yn flinedig

ar y trên i Aberystwyth, roeddwn yn edrych ymlaen i weld criw bychan o deulu a ffrindiau yn aros amdanaf. Roeddwn am ddangos i bawb nad oeddwn ddim gwaeth o’r profiad.

Ond ces i sioc anferth wrth gyrraedd yr orsaf. Roedd tua cant o bobol, yn cynnwys llawer o aelodau’r wasg, yno i fy nghroesawu ac yn llafarganu fy enw drosodd a throsodd. Roedd yn deimlad arallfydol, roedd y sylw yn anhygoel, a’r gefnogaeth yn wych. Roedd yn debyg iawn i’r brotest tu allan i’r llys, heblaw bod nifer y cefnogwyr wedi dyblu o ganlyniad i sylw’r wasg a’r ymprydwy, a’r dorf yn cynnwys nifer o wynebau diarth hefyd oedd am ddangos eu cefnogaeth.

Mae’n amlwg fod y carchariad cyntaf mewn deng mlynedd wedi

taro rhyw dant yng Nghymru; derbynies i dros gant o lythyrau o gefnogaeth a bu tri deg o gefnogwyr yn ymprydio yn ystod fy nghyfnod yn y carchar. Dengys hynny’n unig bod fy ngweithred wedi tanio pobl Gymru, a bod gobaith eto i ail-godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag ymgyrchu di-drais dros yr iaith Gymraeg.

Bu aelodau’r Gymdeithas yn wych o gefnogol i mi ar hyd yr amser, ac roedd fy nghyfnod byr i o garchar yn llawer haws i’w ddioddef o’r herwydd. Ro’n i’n teimlo’n flin iawn dros rai o’r merched oedd yn rhannu’r carchar gyda mi ac sydd mewn am gyfnodau maith. Ond rwy’n ffyddiog i mi wneud y peth iawn ac rwyf yn barod i weithredu eto os bydd angen. ☘



» **Tomos Gwynfor, nai Gwenno, yn ei chroesawu adre ar ôl ei charchariad**

# SYR WYN A PHROTEST

**Dafydd Morgan Lewis** yn cofio'r berthynas "agos" rhwng Wyn Roberts a Chymdeithas yr Iaith

**O**s yw sylw honedig Harold Wilson "fod wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth" yn wir, yna mae'n ddigon posib nad yw darllenwyr ieuengaf y Tafod yn gwybod pwy oedd Wyn Roberts. Er eu mwyn hwy rwy'n nodi iddo fod yn Aelod Seneddol dros Gonwy o 1970 hyd 1992. Bu hefyd yn Weinidog yn y Swyddfa Gymreig yng nghyfnod teyrnasiad Thatcher ac roedd ganddo gyfrifoldeb arbennig dros yr iaith Gymraeg. Oherwydd y cyfrifoldeb arbennig hwn fe fu cryn wrthdaro rhyngddo a'r Gymdeithas dros y blynyddoedd. Diddorol felly oedd darllen ei hunangofiant 'Right From The Start - The Memories of Sir Wyn Roberts' gyhoeddwyd yn ddiweddar, er mwyn cael gweld yn union beth oedd ganddo i'w ddweud amdanom.

Pan ddaeth yn aelod o'r llywodraeth gyntaf roedd yr ymgyrch arwyddion yn dal i fudlosgi. Mae ei gyfeiriad cyntaf at y Gymdeithas yn ei hunangofiant yn ymwneud â hyn:

*"The Welsh Language Society (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg), largely composed of young people but backed behind the scenes by Plaid Cymru academics and politicians, was busy defacing road*

*signs because the Welsh place name came second to the English. It degraded the language in their eyes. My simple and very practical answer was to give priority to the Welsh-language place name in those counties like Gwynedd where Welsh speakers formed the majority of the population and to give the English version precedence in places like Gwent where English predominated. The policy was introduced without fuss and the campaign of defacing road signs petered out."*

Fe achosodd helynt y sianel a bygythiad Gwynfor Evans i ymptydio lawer mwy o ofid iddo. Disgrifia ei hun yn dod wyneb yn wyneb â phrotestwyr y Gymdeithas yn y cyfnod hwn:

*"On 31 May, I experienced half a dozen excited and frightened young demonstrators shouting abuse and throwing fourth channel pamphlets at me in the rain when I visited the Urdd Eisteddfod at Abergele."*

Yn ystod Streic y Glöwyr y bu'r gwrthdaro nesaf. Dyna pam fod yna bobl a siaradai Saesneg ymysg y rhai fu'n meddiannu ei swyddfa:

*"The Welsh Language Society, who had been no more than a discomfiting nuisance with their blaring loudspeakers in Ministers' ears at National Eisteddfodau, excelled themselves when they imprisoned me in my surgery for constituents at Bangor one*

**Alun Llwyd yn cwrdd â Syr Wyn yn 1992**



# “byddai bywyd Syr Wyn wedi bod yn llawer gwacach oni bai am bresenoldeb y Gymdeithas”

*Saturday morning in December 1984. I was on my own – apart from the redoubtable Sheila Jenkins who organized these surgeries for me. Suddenly, about thirty youngsters of both sexes, led by an athletic young man, invaded the large room. They barricaded themselves in with chairs and sat down – an ugly picture of disciplined stubbornness. Some of them whispered among themselves in English. I did not move knowing that sooner or later one of them would have to go for a pee... My captors reminded me of the snapping dolls in the film Barbarella... It was the Hitler Youth style of misdirected discipline that irked me more than anything and the time wasting folly of it all.”*

Brwydr fawr dechrau'r wythdegau oedd yr un dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg ac fe welodd Wyn Roberts lawer arnom yn y cyfnod hwnnw:

*“Meanwhile, the Welsh Language Society was becoming increasingly vocal in its demands. Some members had already wrecked a health exhibition at the National Eisteddfod in Rhyl in 1985 by putting their boots into computers and other equipment. To civilized people, their vandalism was horrendous.”*

Yna yn 1986 mae Wyn Roberts yn annerch Rhieni Dros Addysg Gymraeg ym Mhontypridd. Roedd aelodau'r Gymdeithas yno hefyd. Wrth adael gwnaeth Wyn Roberts ymdrech i'w hosgoi:

*“I headed for the official car and then turned quickly at the last moment to the press officer's vehicle. Realizing that they had been duped, some of the protesters ran after us and one threw himself on the bonnet. When the car swerved at the end of the drive, he slid off on to the grass verge. The entire scene was captured on camera and shown on television news that evening. Sadly, the young man on the bonnet, had injured himself in his fall.”*

Tra bod gan y Gymdeithas ymgyrhydd clwyfedig yn y de roedd un arall yn aros am Wyn Roberts yn y gogledd ac yn fwy na pharod i'w atgoffa o'r angen am Gorff Datblygu Addysg Gymraeg.

*“A similar scuffle, this time involving the police, took place when I visited Gwynedd County Council in Caernarfon in July. I have a distinct recollection of the protesters' leader, Angharad Tomos, with her face and long, wild hair, pressed for an instant against the car windscreen before she was peeled off by a burly gentleman in blue.”*

Merch arall o'r gogledd achosodd gryn ofid i Wyn Roberts oedd Branwen Niclas. Yn 1991 carcharwyd hi ac Alun Llwyd wedi iddynt achosi difrod i adeiladau'r llywodraeth fel rhan o'r ymgyrch dros Ddeddf Eiddo. Yn ystod y carchariad hwnnw y penderfynodd Branwen fynd ar ymryd gan alw ar yr un pryd ar i Wyn Roberts ymweld â hi. Dyma sut mae Wyn Roberts ei hun yn adrodd yw hanes.

*“In November 1991, a young woman, Branwen Nicholas, threatened to fast if I did not go to see her in prison after she had been jailed for vandalising a government office in Colwyn Bay. I refused point blank: it was a form of blackmail. It was embarrassing because she was the daughter of the archdruid, James Nicholas, who had once helped me compose a sonnet.”*

Ond os mai gofid iddo oedd Branwen Nicholas, nid felly Alun Llwyd. Mae'n amlwg fod ganddo feddwl mawr o'r gŵr hwnnw.

*“I arranged to meet officers of the society in January but their suggestions for solving the holiday-home problem was impractical and would have deprived ordinary private home owners in parts of Wales of the open-market value of their properties. This was not acceptable. However; I was impressed by the quality of some of the young people I met, especially Alun Llwyd, a slight figure with impenetrable eyes, and dressed in fashionable black with a Long Island belt. If only they could be persuaded to work constructively for the future of the language, there would be hope for us all.”*

Wrth gwrs ymgyrch fwyaf llwyddianus y Gymdeithas yn y cyfnod hwn oedd yr un dros Ddeddf Iaith. Buom wrthi'n galed ers dechrau'r wythdegau yn ceisio cael y maen i'r wal. Pan drefnwyd cyfarfod i lansio Bwrdd yr Iaith dan gadeiryddiaeth John Elfed Jones gwna Wyn Roberts y sylw hwn:

*“It was July before we had the official launch of the new board but the Welsh Language Society had got wind of it and campaigned with redoubled vigour for a Language Act. They scented victory and wanted to be in the vanguard of success.”*

Bu'n rhaid aros tan 1992 cyn y cafwyd y fuddugoliaeth rannol honno. Roedd Wyn Roberts yn iawn pan nododd i ni gael ei siomi bryd hynny gan yr hyn a gyflwynwyd.

Yn ystod yr wythdegau a dechrau'r nawdegau fe chwaraeodd Wyn Roberts ran fawr ym mywyd y Gymdeithas. Dilynem ef o le i le yn barhaus. Daw'r berthynas “agos” rhyngom i'r golwg yn y cofiant hwn. Dywed yn ei lyfr, iddo, pan ar ymweliad â Japan, glywed o ffenest ei westy leisiau protestwyr gyda chorn siarad yn gweiddi “Wyn go home”. Tybiodd am funud fod y Gymdeithas wedi trefnu protest yn ei erbyn yn y Dwyrain Pell. Deallodd wedyn mai “Queen go home” oedd galwad y protestwyr ac nad oedd ganddynt ddim i'w wneud â Chymdeithas yr Iaith o gwbl.

Ond mae rhywun yn synhwyro y byddai bywyd Wyn Roberts wedi bod yn llawer gwacach oni bai am bresenoldeb y Gymdeithas. ☪

## GIGS



Iwan a Dan yn casglu'r wobwr am ddigwyddiad byw y flwyddyn



Uchod Mattoidz, enillwyr band y flwyddyn, a chyn-enillwyr Brwydr y Bandiau Isod Gruff Rhys yn chwarae yn gigs y Gymdeithas yn y Steddfod llynedd



# TREFNU GIGS TAWE 2006

Mae **Owain Schiavone** yn paratoi am yr Eisteddfod

**M**ae'r gwaith o baratoi ar gyfer miri blynyddol gigs yr Eisteddfod Genedlaethol yn prysur symud ymlaen. Roedd y grwp adloniant yn falch iawn i ennill teitl 'digwyddiad byw y flwyddyn' am gigs Steddfod 2005 yng Ngwobrau Roc a Phop Radio Cymru, ond does dim amser i feddwl gormod am y llwyddiant hyn gan fod Steddfod 2006 yn prysur nesáu.

Mae tîm adloniant y Gymdeithas wedi bod yn cyfarfod yn gyson â chriw brwd o Gymry ifanc ardal Abertawe i drafod trefniadau'r wythnos ac mae'r canolfannau wrthi'n cael eu cadarnhau ar hyn o bryd, felly disgwyliwch ddatganiad ynglŷn â rhain cyn hir!

Mae'r tîm erbyn hyn yn dechrau llunio trefn y nosweithiau a phenderfynu pwy sy'n chwarae pryd yn ystod yr wythnos, sydd bob tro'n profi'n dasg galed i geisio plesio pawb. Roedd dros 60 o fandiau'n perfformio i'r Gymdeithas yn ystod Steddfod Eryri llynedd felly gallwch ddechymgu faint o waith yw hi i slotio pawb i mewn. I unrhyw fand sy'n awyddus i berfformio, mae croeso i chi anfon demo a gwybodaeth am y band i swyddfa'r Gymdeithas.

Fel arfer bydd gigs y Gymdeithas yn cynnwys holl enwau mawr y sin gerddoriaeth Gymraeg gyfoes yn ogystal â rhoi cyfle i nifer o'r bandiau newydd ifanc mwyaf addawol – yn sicr bydd rhywbeth i blesio pawb yn ystod yr wythnos.

Unwaith eto eleni, bydd cyfle i un band newydd sbon berfformio yn gig mwyaf y flwyddyn ar nos Sadwrn olaf yr ŵyl trwy ennill cystadleuaeth Brwydr y Bandiau. Mae'r gystadleuaeth bob tro'n gyfle gwych i fandiau berfformio yn ystod yr wythnos gan fod y rownd derfynol yn cael ei chynnal yr yr Eisteddfod hefyd.

Mae'r tîm adloniant yn credu bod y gystadleuaeth yn hollbwysig o ran datblygu bandiau ifanc ac mae nifer o gyn-enillwyr wedi mynd ymlaen i gael llwyddiant mawr – yn arbennig Mattoidz, a enwyd yn fand y flwyddyn yn Ngwobrau RAP Radio Cymru yn ddiweddar. ☛

**Os ydych eisiau mwy o fanylion am grwp adloniant y Gymdeithas, unrhyw gigs sy'n cael eu cynnal, neu am helpu gyda'r gwaith trefnu mewn unrhyw fodd mae croeso i chi gysylltu â'r swyddog adloniant, Owain Schiavone, trwy e-bostio [owain@cymdeithas.com](mailto:owain@cymdeithas.com)**

**“ry ni’n falch iawn o ennill teitl ‘digwyddiad byw y flwyddyn’ am gigs Steddfod Llynedd”**

# BRWYDR Y BANDIAU!

**B**ydd cystadleuaeth Brwydr y Bandiau Cymdeithas yr Iaith yn dychwelyd eleni, gyda'r ffeinal i'w chynnal yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe fis Awst – a phe cyn gwobrau gwych i'r enillwyr Iwcus.

Nod y gystadleuaeth yw dod o hyd i dalentau newydd Cymraeg a rhoi llwyfan iddyn nhw – a rhoi hwb ychwanegol iddynt fod yn llwyddianus am flynyddoedd i ddod. Mae Brwydr y Bandiau wedi bod yn hynod effeithiol yn y gorffennol gyda Java a Pala (cyd-enillwyr yng Nghasnewydd 2004) a'r Derwyddon (buddugwyr 2005) wedi parhau i gigio'n gyson ers eu llwyddiant, tra bo Mattoidz (ennillwyr eisteddfod Ty Ddewi 2002) bellach yn un o fandiau amlycaf a mwyaf poblogaidd Cymru. Mae'r gystadleuaeth yn agored i bob oedran.

Yr unig amodau yw fod y band yn gallu cynnal set 15 munud o ganeuon Cymraeg gwreiddiol ac nad ydynt eisioes wedi recordio unrhyw gynnyrch. Ni all band gystadlu os wnaethant ymddangos yn ffeinal Llynedd, er fod croeso i rai na aeth ym mhellach na'r rhagbrofion gystadlu eto.

Bydd enillwyr y gystadleuaeth yn cael cyfle i chwarae ar Sadwrn ola'r Steddfod gan gefnogi rhai o brif fandiau Cymru; recordio sesiwn ar gyfer C2 ar Radio Cymru; sesiwn recordio a chyfle i ryddhau deunydd ar label Rasal; chwarae mewn cyfres o gigs wedi'u trefnu gan Gymdeithas yr Iaith mewn gwahanol rannau o Gymru; a ffilmio fideo ar gyfer Bandit. ☎

**Llenwch y ffurflen isod – y dyddiad cau ar gyfer cofrestru ydi Mawrth 31ain 2006.**

## AWEN MEIRION<sup>cyf.</sup>

25 STRYD FAWR · Y BALA · GWYNEDD · LL23 7AG  
☎ (01678) 520658 e: gwyn@sionifan.fsnet.co.uk

### LLYFRAU · CASETIAU DISGIAU · FIDEOS

CARDIAU AT BOB ACHLYSUR

CRYSAU 'COWBOIS'

CROCHENWAITH TREGARON



...a llawer iawn mwy!

CYFLENWYR YSGOLION A LLYFRGELLOEDD

GWASANAETH POST BYD EANG!



LLUN I SADWRN 9.00 - 5.30



## FFURFLEN GOFRESTRU BRWYDR Y BANDIAU 2006

Enw'r Band: \_\_\_\_\_

Nifer o Aelodau: \_\_\_\_\_

Offerynau: \_\_\_\_\_

Enw Cyswllt: \_\_\_\_\_

Rhif Cyswllt: \_\_\_\_\_

E-bost: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

A fyddai modd i'r band deithio i ragbrawf?

Bydd  Na fydd

Dychweler erbyn Mawrth 31, 2005

**Brwydr y Bandiau 2006, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,  
Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ**  
neu [adloniant@cymdeithas.com](mailto:adloniant@cymdeithas.com)

# CYFARFOD CYFFREDINOL 2006

## DYDD SADWRN, 25 MAWRTH CANOLFAN Y MORLAN, ABERYSTWYTH BLWYDDYN NEWYDD O YMGYRCHU

- 10.00 **Paned a chroeso**
- 10.30 **Gair o groeso**  
gan aelod o Senedd  
Cymdeithas yr Iaith
- 10.45 **Cynigion**
- Cynigion trefniadol a gweinyddol
  - Cynigion Ymgyrchu: Sesiwn Addysg, Sesiwn Cymunedau Rhydd, Sesiwn Deddf Iaith (Bydd cyfle ym mhob sesiwn i arweinydd y grwpiau ymgyrchu penodol wneud cyflwyniad byr)
  - Cynigion Brys
- 12.45 **Cyhoeddi swyddi gwag**  
ar y Senedd a dosbarthu  
ffurflenni enwebiadau.
- 13.00 Egwyl am ginio
- 14.00 **Deddfwriaeth iaith yn gwneud gwahaniaeth: profiad Catalonia**  
Siaradwraig Wâdd:  
Alexia Bos Solé
- 15.30 Toriad am baned
- 15.45 **Cyhoeddi enwau aelodau Senedd 2006**  
ac etholiadau ar gyfer  
unrhyw swyddi gwag.
- 16.00 **Gair clo**

**Y**Cyfarfod Cyffredinol yw'r cyfle blynyddol i aelodau'r Gymdeithas drafod a phenderfynu ar ymgyrchoedd y flwyddyn sydd i ddod, yn ogystal â chlywed am waith y mudiad dros y flwyddyn aeth heibio. Dewch draw i Ganolfan y Morlan yn Aberystwyth ar Fawrth 25ain i gyfrannu at y drafodaeth a phleidleisio ar y cynigion sydd ar y tudalennau nesaf. Gallwch anfon welliannau a chynigion brys at swyddfa'r Gymdeithas hyd at fore Gwener, Mawrth 24ain.

Hefyd yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol, cyhoeddir enwau'r swyddogion sydd wedi'u hethol i senedd y Gymdeithas am y flwyddyn nesaf.

Yn ystod y prynhawn, bydd siaradwraig arbennig yn rhoi perspectif rhyngwladol ar ddeddfwriaeth iaith a'r gwahaniaeth mae'n gallu gwneud i ieithoedd llai. Mae Alexia Bos Solé yn gweithio i Ganolfan Ciemen yn Barcelona, sydd yn sefydliad yng Nghatalonia sy'n ymchwilio i, ac yn ymgyrchu dros, leiafrifoedd a chenhedloedd llai. Bydd y sesiwn yn sicr yn hwb i'r ymgyrch Deddf Iaith ac ry'n ni'n falch iawn ei bod hi'n gallu dod draw. Rhowch y gair ar led! ☪

CYN Y CYFF...  
NOS WENER 24 MAWRTH

**Y DDEDDF DERFYSGAETH  
A'I HEFFAITH AR FUDIADAU PROTEST**  
Siaradwr gwadd: y cyfreithiwr Hywel James  
**Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth, 19:00**

**GIG Y CYF CYFF:  
Y DERWYDDON, AC ERAILL**  
Tafarn y Cŵps, Aberystwyth, 21:00

# CYFARFOD CYFFREDINOL 2006

## CYNIGION TREFNIADOL A GWEINYDDOL CYNNIG MABWYSIADU CYFANSODDIAD

### Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:

Nad oes gan Gymdeithas yr Iaith gyfansoddiad ffurfiol ar hyn o bryd.

### Cred y Cyfarfod Cyffredinol:

Ei fod yn hollbwysig mabwysiadu cyfansoddiad ffurfiol er mwyn helpu gyda threfniadaeth y mudiad.

### Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:

Fabwysiadu'r Cyfansoddiad canlynol ar gyfer Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

### Cyfansoddiad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

#### 1. Enw:

Enw'r Gymdeithas fydd "Cymdeithas yr Iaith Gymraeg" ("Cymdeithas yr Iaith" yn fyr)

#### 2. Amcanion/Nod:

Nod Cymdeithas yr Iaith yw:

a. sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei chydhabod fel priod iaith Cymru ac yn ennill ei lle fel iaith swyddogol yng Nghymru

b. sicrhau fod y Gymraeg yn perthyn i holl bobl Cymru a bod gan y bobl hynny yr hawl i fyw eu bywydau yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg; mae hyn yn cynnwys:

i. yr hawl i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

ii. yr hawl i ddysgu Cymraeg

iii. yr hawl i wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector preifaf neu gyhoeddus

iv. yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

v. yr hawl i ofal drwy gyfrwng y Gymraeg

c. gwarchod a hybu cymunedau Cymraeg a Chymreig drwy sicrhau fod modd i bobl leol fyw a gweithio yn y cymunedau hyn a sicrhau dyfodol hyfyw i'r cymunedau hyn.

#### 3. Dulliau

Bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ymgynraedd at yr amcanion hyn trwy weithgareddau di-drais, gan aelodau'r Gymdeithas yn cyfarfod yn ddemocrataidd.

Gall y gweithgareddau yma gynnwys

cydweithio gyda sefydliadau a mudiadau di-drais eraill sydd yn gweithio dros heddwch, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol lle bynnag y bont.

Ni fydd Cymdeithas yr Iaith yn derbyn rhagfarnu ar sail iaith, rhyw, hunaniaeth rywiol, hil, anabledd na chrefydd.

#### 4. Aelodaeth

Gall unrhyw un fod yn aelod o Gymdeithas yr Iaith sydd:

a. wedi llenwi ffurflen ymaelodi a drwy hynny datgan ei fwriad i ymuno â'r Gymdeithas

b. wedi talu'r tâl aelodaeth, fel y'i pennir gan Senedd Cymdeithas yr Iaith

c. yn fodlon hyrwyddo amcanion Cymdeithas yr Iaith

ch. yn cytuno i ufuddhau i gyfansoddiad Cymdeithas yr Iaith

#### 5. Disgyblaeth

Mae Cymdeithas yr Iaith yn cydnabod y bydd safbwyntiau ei haelodau'n amrywio'n fawr a bod angen parchu a gwrandao ar farn aelodau eraill, ond mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ddiarddel unrhyw aelod nad yw'n cyflawni'r amodau aelodaeth. Bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud gan y Senedd. Bydd y rhesymau dros weithredu trefniadau disgyblu fel a ganlyn:

a. Gweithredoedd neu ddatganiadau sy'n groes i amcanion y Gymdeithas;

b. Aelodaeth o fudiad sy'n mynd yn groes i amcanion y Gymdeithas;

c. Ymddygiad parhaus yng nghyfarfodydd y Gymdeithas sy'n fygythiol neu sy'n aflonyddu ar eraill;

Bydd y cosbau isod ar gael i'r Senedd yn unol â thelerau'r Rheolau hyn:

i. Ceryddu;

ii. Atal aelodaeth am gyfnod;

iii. Diarddel o'r Mudiad.

Bydd gan unigolyn a waharddwyd rhag bod yn aelod o'r Gymdeithas o ganlyniad i bennu cosb ddisgyblaethol yn unol â'r rheolau hyn hawl i wneud cais i ymaelodi â'r Gymdeithas

o'r newydd ddim cynt na dwy flynedd ar ôl pennu'r gosb.

### 6. Y Senedd

Y Senedd yw'r pwyllgor sydd yn gyfrifol am oruchwilio holl waith Cymdeithas yr Iaith gyda'r pŵer i wneud unrhyw benderfyniad heblaw rhai sy'n groes i benderfyniad a basiwyd gan y Cyfarfod Cyffredinol.

Bydd cyfarfodydd Senedd yn cael eu cynnal fel arfer ar ddydd Sadwrn cyntaf bob mis. Mae Senedd Cymdeithas yr Iaith yn agored i holl aelodau'r Gymdeithas ond aelodau'r senedd yn unig sydd â hawl i bleidleisio ynddynt.

Aelodau'r Gymdeithas fydd yn gyfrifol am ethol aelodau i wasanaethu ar y Senedd am gyfnod o flwyddyn. Mae gan pob aelod o'r Gymdeithas yr hawl i enwebu unrhyw aelod arall ar gyfer unrhyw swydd trwy lenwi'r ffurflen enwebiadau a fydd yn cael ei ddanfôn at yr holl aelodau yn y cyfnod yn arwain at y Cyfarfod Cyffredinol.

Mae gan bob aelod o'r Gymdeithas yr hawl i bleidleisio dros unrhyw aelod arall sydd wedi derbyn enwebiad ar gyfer unrhyw swydd trwy lenwi'r ffurflen bleidleisio a fydd yn cael ei danfon at yr holl aelodau yn y cyfnod yn arwain at y Cyfarfod Cyffredinol.

Bydd y buddugwyr yn cael eu henwi yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol. Bydd unrhyw swyddi gwag yn cael eu llenwi trwy bleidlais yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol.

Gan y Cyfarfod Cyffredinol mae'r hawl i ychwanegu at, dileu neu newid natur unrhyw swydd ar y senedd. Os oes sefyllfa yn codi fod yn rhaid creu swydd newydd ar y senedd rhwng dau Gyfarfod Cyffredinol mae hawl gan Senedd y Gymdeithas i wneud hynny. Ond rhaid i'r swydd honno gael ei chadarnhau yn y Cyfarfod Cyffredinol dilynol.

Os bydd un o'r swyddi a etholwyd gan y Cyfarfod Cyffredinol yn dod yn wag yn ystod y flwyddyn, mae gan y Senedd yr hawl i ethol unrhyw aelod o'r Gymdeithas i wasanaethu hyd y Cyfarfod Cyffredinol nesaf.

Mae deiliad y swyddi canlynol fel y'u hetholwyd gan aelodau Cymdeithas yr Iaith

# CYFARFOD CYFFREDINOL 2006

yn aelodau llawn o'r Senedd:

- Cadeirydd
- Is Gadeirydd Ymgyrchoedd
- Is Gadeirydd Cyfathrebu a Lobio
- Is Gadeirydd Gweinyddol
- Trysorydd
- Swyddog Codi Arian
- Swyddog Aelodaeth
- Swyddog Mentrau Masnachol
- Golygydd y Tafod
- Swyddog Gwefan a Dylunio
- Swyddog Adloniant
- Cadeirydd Grwp Deddf Iaith
- Swyddog Ymgyrchu Deddf Iaith
- Swyddogion Cyfathrebu a Lobio Deddf Iaith
- Swyddog Polisi Deddf Iaith
- Cadeirydd Grwp Cymunedau Rhydd
- Swyddog Ymgyrchu Cymunedau Rhydd
- Swyddog Cyfathrebu a Lobio Cymunedau Rhydd
- Swyddog Polisi Cymunedau Rhydd
- Cadeirydd Grwp Addysg
- Swyddog Ymgyrchu Addysg
- Swyddog Cyfathrebu a Lobio Addysg
- Cadeirydd Grwp Gweiddiwch y Gymuned

Bydd Cadeiryddion Rhanbarthol, sydd hefyd yn aelodau llawn o'r Senedd, yn cael eu hethol yng nghyfarfodydd blynyddol y rhanbarthau.

Bydd Cadeiryddion Celloedd Prifysgolion Cymru yn aelodau llawn o'r Senedd.

Bydd holl swyddogion cyflogedig y Gymdeithas yn aelodau llawn o'r Senedd yn ddi-ofyn. Y Senedd fydd yn penodi Swyddogion Cyflogedig.

## 7. Rhanbarthau

Yn nhermau'r Gymdeithas, mae Cymru wedi ei rhannu'n chwe rhanbarth, sef Gwynedd-Môn, Clwyd, Ceredigion, Caerfyrddin-Penfro, Powys a Morgannwg-Gwent.

Gall celloedd neu unigolion sefydlu Cyfarfod Rhanbarth gyda chydysniad y Senedd. Un pwyllgor swyddogol fydd yng ngofal unrhyw ranbarth. Gwaith y rhanbarth yw cydlynu gwaith y celloedd o fewn y rhanbarth a bod yn ddolen gyswilt rhwng y Senedd a'r celloedd. Yn ddefnyddiol dylai fod Swyddog Maes cyflogedig yn gwasanaethu'r

rhanbarth (neu grwp o ranbarthau) ar ran y Gymdeithas. Bydd Cadeirydd y Rhanbarth, a etholir yn ystod cyfarfod cyffredinol y rhanbarth, neu ei gynrychiolydd yn aelod o Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Neilltuir tair Senedd bob blwyddyn i drafod materion rhanbarthol

## 8. Celloedd (Ysgol/Coleg/Ardal)

Gwasanaethir Cymdeithas yr Iaith ar lefel leol/gymunedol gan gelloedd. Mae gan y gell hawl i ethol ei swyddogion ei hun a hawl i weithredu yn unol ag egwyddorion a pholisiau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Mae gan Senedd Cymdeithas yr Iaith hawl i ddiarddel unrhyw gell o'r mudiad (ac wedi ymgyngori â'r swyddogion rhanbarth perthnasol) os tybir fod y gell wedi camymddwyn, dwyn anfri neu weithredu'n groes i egwyddorion y Gymdeithas. Dylid rhoi rhybudd swyddogol i gell cyn ei diarddel.

Bydd y gell yn anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod rhanbarth.

Mae gan gelloedd Coleg hawl i gynrychiolaeth uniongyrchol ar y Senedd. Byd y cynrychiolydd yma yn cael ei benodi gan Gell y Coleg.

## 9. Y Cyfarfod Cyffredinol

Bydd cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr iaith yn cael ei gynnal yn ystod mis Mawrth/Ebrill.

Gellir galw Cyfarfod Cyffredinol arbennig yn ychwanegol at y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol os yw'r Senedd, 5 cell, 2 ranbarth, neu 20 o aelodau cyffredin yn gwneud cais am hyn.

### Rheolau Sefydlog

- Bydd gan bob aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yr hawl i fynychu cyfarfodydd cyffredinol. Caniateir i'r wasg a syllwebyddion fod yn bresennol oni bai fod mwyafrif syml o'r aelodau yn penderfynu'n groes i hynny.
- Gyda mwyafrif syml o'r cyfarfod gellir gollwng y Rheolau Sefydlog.
- Dim ond aelodau o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg (h.y. y rhai sy'n dal cerdyn

pleidleisio) all bleidleisio yn y cyfarfod.

ch. (i) Rhaid i gynigion fod yn llaw un o aelodau'r Pwyllgor Llywio o flaen y cyfarfod ar ddyddiad ac amser i'w penodi gan y Senedd.

(ii) Derbynir cynigion brys rhwng y dyddiad olaf derbyn cynigion ac amser arbennig yn ystod y cyfarfod i'w benderfynu gan y Pwyllgor Llywio.

d. Ni all un aelod siarad mwy nag unwaith ar unrhyw gynnig neu welliant heb ganiatâd y cyfarfod oni fydd yn siarad ar bwyt o drefn, gwybodaeth neu eglurhad, ond bydd gan gynigydd y cynnig gwreiddiol neu welliant yr hawl i ateb y drafodaeth.

dd. (i) Ni fydd y Pwyllgor Llywio yn derbyn cynnig heb enw cynigydd ac eilydd.

(ii) Os na fydd y cynigydd a'r eilydd a enwir yn y cynnig yn bresennol, ni thrafodir y cynnig na gwelliant heb ganiatâd y Cyfarfod Cyffredinol.

(iii) Ni ellir tynnu cynnig na gwelliant yn ôl heb ganiatâd y cyfarfod.

(iv) Ar ôl y cynnig a'r eilio bydd y Cadeirydd yn datgan fod y cynnig gerbron y Cyfarfod a dylai unrhyw aelod sy'n dymuno siarad geisio tynnu sylw'r Cadeirydd.

(v) Ar unrhyw adeg yn ystod y drafodaeth gellir cynnig gwelliant ysgrifenedig (os ydyw yn llaw un o'r ysgrifenyddion cyn y cyfarfod ar ddyddiad ac amser i'w benodi gan y Senedd), a chaniateir gwelliant ar welliant os cyflwynir ef i'r Cadeirydd yn ysgrifenedig 3 chynnyg ymlaen llaw.

(vi) Gall y cynigydd dderbyn unrhyw welliant os dymuna, a'r cynnig fydd yn sefyll fydd y cynnig wedi'i wella.

(vii) Ni chymerir gwelliant ar y cynnig gwreiddiol fel araiht yn erbyn y cynnig gwreiddiol.

(viii) Os nad yw cynigydd y cynnig gwreiddiol yn derbyn gwelliant bydd y cyfarfod yn mynd ymlaen i drafod y gwelliant.

(ix) Bydd hawl gan y cynigydd drosglwyddo'r hawl i grynhoi i gynigydd y gwelliant os dymuna.

# CYFARFOD CYFFREDINOL 2006

e. (i) Tra bydd aelod arall yn siarad, gall aelod siarad â'r gadair ar bwynt o wybodaeth a godir yn unig i ofyn cwestiwn neu i gywiro'r gadair. Yn y naill achos a'r llall bydd gan y siaradwr neu'r Cadeirydd y dewis o ymdrin a'r pwynt neu beidio. Ni ellir codi pwyntiau o wybodaeth yn ystod araith grynhoi.

(ii) Os nad oes aelod yn siarad gall aelod siarad â'r gadair:

- ar bwynt o drefn, a gyfeirir i'r gadair ac a fydd yn ymdrin yn unig â threfn y cyfarfod.
- ar bwynt o eglurhad, a gyfeirir i'r gadair ac a fydd yn ymdrin yn unig ag egluro sylwadau a wnaed yn gynharach gan y gadair neu gan siaradwr arall. Ni fydd yn bwynt o wybodaeth.

f. Yn ystod trafodaeth ar gynnig neu welliant gellir cynnig y cynnigion trefn canlynol i gwtogi ar neu ohirio trafodaeth. Ni ellir cynnig yr un cynnig trefn fwy nag unwaith mewn unrhyw gyfnod o ddeng munud.

(i) Gadael cynnig ar y bwrdd, a olyga os yw'n cael ei basio, ohirio trafodaeth ar y cynnig blaenorol tan y Cyfarfod Cyffredinol nesaf (os dymuna'r cynigydd a'r eilydd ei ail gynnig).

(ii) Cyfeirio'r cynnig yn ôl, a olyga os yw'n cael ei basio, cyfeirio'r cynnig yn ôl i'r Senedd.

ff. Bydd pob pleidlais drwy ddangos cardiau pleidleisio. Ni chaniateir i neb pleidleisio dros eraill.

g. Bydd gan y Cadeirydd bleidlais frwr'n unig.

ng. (i) Gall y Cadeirydd o'i (d)dewis ei hun:

- gyfyngu ar amser unrhyw ran o'r agenda
- gyfyngu ar amser unrhyw drafodaeth ar gwstawn neilltuol

Bydd penderfyniad y Cadeirydd ar unrhyw bwynt o drefn yn derfynol os nad yw mwyafrif llwyr o'r aelodau sy'n bresennol yn pleidleisio dros gynnig yn herio penderfyniad y Cadeirydd ar unrhyw fater.

Bydd penderfyniad o ddiwyg hyder yn y Cadeirydd fel cadeirydd angen mwyafrif syml cyn dod i rym. Yna bydd Cadeirydd

arall yn cadeirio am weddill yn cyfarfod.

Yn yr achos uchod, bydd y Cadeirydd yn trosglwyddo'r gadair i gadeirydd arall yn ystod y drafodaeth ar y cynnig. Gellir cynnig hyn ar unrhyw bryd yn ystod y cyfarfod.

Os dymuna'r Cadeirydd siarad at unrhyw bwnc ar wahân i'w ddyletswydd fel cadeirydd yna rhaid iddi/iddo adael y gadair. Cymerir ei (l)le gan gadeirydd arall am weddill y drafodaeth ar y pwnc.

h. Golyga mwyafrif llwyr bod  $\frac{2}{3}$  o'r aelodau sy'n bresennol yn pleidleisio dros y cynnig. Ar gyfer y pwrpas yma anwybyddir rhanedau.

i. Penderfynir ar amserlen y Cyfarfod Cyffredinol ac ar drefn y cynnigion a materion trefnyddol eraill gan y Pwyllgor Llywio a gyfansoddir fel a ganlyn: Y Cadeirydd, Is-Gadeiryddion, Swyddogion Cyflogedig.

## 10. Newid y Cyfansoddiad

Ni cheir newid y Cyfansoddiad hwn ond trwy bleidlais yr aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio yn y Cyfarfod Cyffredinol.

## 11. Dehongliad

Os digwydd bod unrhyw gwestiwn yn codi ynglŷn â dehongliad y Cyfansoddiad, bydd cadeirydd y cyfarfod (neu rhwng cyfarfodydd, Cadeirydd y Gymdeithas) yn dyfarnu ar y mater a bydd ei d/dyfarfarniad yn derfynol oni bai fod cynnig yn cael ei basio yn gofyn i'r person symud o'r Gadair. Byddir yn adrodd am unrhyw ddyfarniad o'r fath i'r Senedd, a fydd yn argymhell gweithredu i ddileu unrhyw amwysedd.

*Cynigydd: Hedd Gwynfor  
Eilydd: Aled Elwyn*

## SESIWN DEDDF IAITH DEDDF IAITH – DYMA'R CYFLE

Yn wyneb ymgyrchu caled Cymdeithas yr Iaith dros Ddeddf Iaith Newydd a chynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i ddiddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, noda'r Cyfarfod Cyffredinol bod consensws cyhoeddus cryf yn datblygu mai dyma'r cyfle i Lywodraeth y Cynulliad fynd ati ar frys i weithredu ar y galwadau canlynol:

- Lluio Deddf Iaith Newydd fydd yn sefydlu hawliau sylfaenol i bawb yng Nghymru o ran derbyn gwasanaethau, gwbyodaeth, nwyddau a chyfleusterau yn Gymraeg ar draws y sector gyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ynghyd â rhoi'r hawl i bawb yng Nghymru fedru dysgu Cymraeg a derbyn addysg yn Gymraeg

- Sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg

- Datgan yn glir mai'r Gymraeg yw prifod iaith Cymru a bod gan y Gymraeg statws swyddogol

- Creu swydd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg a sefydlu Cyngor yr Iaith Gymraeg

Cred y cyfarfod bod rhaid i Gymdeithas yr Iaith yn genedlaethol a thrwy celloedd lleol barhau i arwain ymgyrch gref dros Ddeddf Iaith Newydd er mwyn dwyn yr achos i flaen yr agenda wleidyddol. At y pwrpas hwn cyfarwydda'r Cyfarfod Cyffredinol:

- Y Grwp Deddf Iaith i drefnu cyfres o ddiwyddiadau, gweithredoedd ymgyrchu a lobi, ynghyd â phrotesiadau uniongyrchol di-drais dros Ddeddf Iaith Newydd fydd yn cynnwys Ralïau Cenedlaethol

- Y Grwp Deddf Iaith i fynd i'r afael ag ymdrechion penodol i gyfathrebu amcanion yr ymgyrch trwy gyfrwng yr iaith Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, gan gynnwys lansio Deiseb "Dy Hawl i'r Gymraeg" a Thaith yr Haf trwy gymunedau lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn isel,

- Holl aelodau Cymdeithas yr Iaith ynghyd â swyddogion cyflogedig a'r grwp Gyfathrebu i ymrwmo amser ac egni i gynorthwyo'r Grwp Deddf Iaith gan sicrhau mai'r ymgyrch dros Ddeddf Iaith Newydd fydd prif ymgyrch y mudiad dros y flwyddyn nesaf.

*Cynigydd: Ymgyrch Deddf Iaith Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*

## RHANBARTHAU SIARTER CEREDIGION

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:

- fod dirywiad enbyd wedi bod yng nghanran y nifer sy'n siarad Cymraeg yng Ngheredigion yn y deng mlynedd rhwng cyfrifiad 1991 a chyfrifiad 2001.

# CYFARFOD CYFFREDINOL 2006

• os pery'r dirywiad hwn ymhellach ni ellir ystyried Ceredigion fel un o gadarnleoedd y Gymraeg yng Nghymru

• mai nonsens llwyr oedd sylw prif weithredwr Ceredigion wrth ddirprwyath o aelodau Cymdeithas yr Iaith fod y Gymraeg yn dod mor naturiol ag anadlu i bobl y sir.

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:

• fod y ddogfen gynhwysfawr Siarter Ceredigion a baratowyd gan Ranbarth Ceredigion Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cynnig arweiniad cadarn i'r cyngor sir ar sut i fynd ymlaen gyda'r gwaith o adfer y Gymraeg yn y sir

• fod cael y Cyngor Sir i weinyddu'n fewnl drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwbl hanfodol fel cam cyntaf tuag at adfer y Gymraeg yn y sir.

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:

• Fod y Grwp Deddf Iaith yn estyn cymorth i Ranbarth Ceredigion er mwyn sicrhau fod gweinyddiaeth fewnl y sir yn cael ei chynnal drwy gyfrwng y Gymraeg

• fod rhanbarthau eraill y Gymdeithas, ac yn arbennig Gwynedd-Môn a Chaerfyrddin, yn mabwysiadu egwyddorion tebyg wrth bwysio ar eu cyngorau sir.

*Cynigydd: Rhanbarth Ceredigion*

## RHANBARTHAU

### CYMAEG YN HANFODOL

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:

• Fod llawer o sefydliadau yn ein hardaloedd Cymreiciaf yn gwneud defnydd arwynebol yn unig o'r Gymraeg. Gosodant wyneb ddwyieithog ar gyfer y cyhoedd tra'n cyflawni bron y cyfan o'u gwaith yn Saesneg.

• Datganwn na fydd y Gymraeg yn brif iaith ein cymunedau heb iddi ddod yn hanfodol l weinyddiaeth ein cyngorau lleol a'n hasiantaethau cyhoeddus ac yn hanfodol l bob myfyrwr yn ein colegau addysg.

• Datganwn mai iaith y weinyddiaeth a chyfrwng yr addysg sy'n cyfri'n hytrach nag iaith lafar y swyddogion a gyflogir.

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:

• Y dylai'r holl gyrrff cyhoeddus hynny sydd

yn gwasanaethu ein cymunedau Cymraeg, gymryd camau pendant ar frys i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn dod yn hanfodol i'w holl waith.

• Y dylai'r drefn bresennol o "ddwyieithrwydd" gael ei throï ar ei phen gan gyfieithu unrhyw waith i'r Saesneg lle bo angen rhesymol.

• Y byddai awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn dynodi'r rhan fwyaf o siroedd Gwynedd, Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin ynghyd â rhannau o Benfro, Powys, Conwy, Dinbych ac Afan-Nedd fel cymunedau Cymraeg lle bo'r Gymraeg yn hanfodol i waith cyrrff cyhoeddus.

• Y gallai cyrrff cyhoeddus mewn nifer o ardaloedd (yn enwedig yng Ngwynedd) ac mewn nifer o feysydd (yn enwedig addysg) gael trawsnewidiad buan i fod yn gyrrff sy'n gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:

• Hyd nes y bydd deddfwriaeth yn gorfodi awdurdodau i wneud penderfyniadau o'r fath, byddwn fel Cymdeithas yn ymgychu i bwysio ar gyrrff cyhoeddus yn y cymunedau Cymraeg i gymryd penderfyniad o'u gwirfodd i wneud y Gymraeg yn brif iaith ac yn hanfodol i'w gwaith gyda chyfieithu rhesymol ar gyfer trigolion di-Gymraeg gyda llywodraeth ganolog yn cyfrannu at gost y cyfieithu fel rhan o wariant ar y Saesneg.

*Cynigydd: Rhanbarth Caerfyrddin-Penfro*

## SESIWN ADDYSG

### DATBLYGU GWASANAETHAU CYMUNEDOL

1. Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn nodi fod Llafur Newydd yn ceisio creu marchnad yn Lloegr o ysgolion yn cystadlu gyda'i gilydd gyda swyddogaeth o bwys i gwmnïau preifat a chyrrff anatebol eraill. O ganlyniad, bydd cymunedau lleol yn colli rheolaeth ar addysg, a'r ysgolion gwannaf yn dioddef. Yr ydym yn diolch nad yw'r datblygiadau hyn yn berthnasol ar hyn o bryd i Gymru, ond yn nodi fod datblygiadau tebyg eisoes wedi digwydd mewn addysg ôl-16. Nodwn hefyd fod yr un tueddiadau ar waith i danseilio rheolaeth gymunedol ddemocratidd yn maes iechyd a thai yng Nghymru.

2. Yr ydym yn cydnabod fod nifer o wasanaethau arbenigol ym maes addysg ac iechyd y mae'n rhaid eu cyflwyno mewn unedau canolog arbennig, ond gwrthwynebw'n y duedd gyfan i ganoli holl ysgolion ac ysbysai a gwasanaethau addysg ac iechyd er cyfleustra biwrocrataidd gan danseilio rheolaeth ac atebolrwydd cymunedol.

3. Datganwn fod y duedd ganoli hon yn ei gwneud yn anos o lawer i gyflwyno wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r diffyg gwasanaeth Cymraeg yn arwydd o ddiffyg atebolrwydd cymunedol ehangach.

4. Galwn ar bleidiau gwleidyddol yn y Cynullid i weithio tuag at gonsensws o lwybr Cymreig amgen - llwybr a fydd yn sicrhau rheolaeth gymunedol ar ein gwasanaethau cymunedol ym maes addysg, tai, iechyd, trafniadaeth ac hamdden gyda deddfwriaeth i sicrhau fod y gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg. Galwn am ddatblygiad y "llwybr Cymreig" hwn tuag at gyflwyno wasanaethau cymunedol nid yn unig o ran egwyddor atebolrwydd lleol ond hefyd am y rheswm pragmataidd nad oes yr adnoddau o ran poblogaeth i greu marchnad gystadleuol tu fewn i'r rhan fwyaf o'n cymunedau.

5. Gwelwn gyfle i ddileu llawer o gwngos ac asiantaethau anatebol gan roi swyddogaeth ehangach i gynghorau sir a hefyd i gynghorau tref a chymuned i ddatblygu Unedau Addysg, Datblygu Cymunedol ac Iechyd yn ein cymunedau gan gydlyn gwasanaethau a ffynonellau cyllid wrth ddatblygu'r adeiladau.

6. Credwn y bydd adnoddau cymunedol o'r fath yn cryfhau cymunedau Cymru ac yn hwylyso cyflwyno'r gwasanaethau'n Gymraeg. Credwn ymhellach fod y strategaeth hon yn berthnasol i holl gymunedau Cymru, ac y dylem anelu at greu cymunedau hyfyr mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol a thu fewn i'n dinasoedd yn ogystal ag yn ein pentrefi gwledig.

*Cynigydd: Grwp Ymgrych Addysg Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*

**Dylai cynigion brys a gwelliannau gyrraedd Swyddfa'r Gymdeithas erbyn bore Gwener Mawrth 24ain ☺**

# WYT TI AM I'R GYMRAEG FYW?

Dros y blynyddoedd mae Cymdeithas yr Iaith wedi sicrhau nifer o lwyddiannau ym mrwydr yr iaith gan gynnwys arwyddion dwyieithog, deddf iaith, S4C a llawer mwy.

Ond mae llawer mwy i'w wneud eto. Mae ein cymunedau Cymraeg dan fgythiad, mae'r llywodraeth yn cau ein hysgolion cynradd Cymraeg tra'n gwrthod yr hawl i addysg Gymraeg yn ein prifysgolion ac mae angen deddf iaith newydd i gynnwys cwmnïau mawr y sector breifat.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn dibynnu ar gyfraniadau gan aelodau a chefnogwyr. Drwy ymaelodi drwy archeb banc, byddi'n cyfrannu at incwm sefydlog i'r Gymdeithas, ac fel aelod byddi'n derbyn newyddion a gwybodaeth am ein gwahanol ymgyrchoedd a digwyddiadau.

## Beth yw gwerth dy iaith i ti?



## RWY AM GEFNOGI CYMDEITHAS YR IAITH

ENW \_\_\_\_\_

CYFEIRIAD \_\_\_\_\_

CÔD POST \_\_\_\_\_

RHIF FFÔN \_\_\_\_\_

E-BOST \_\_\_\_\_

DYDDIAD GENI \_\_\_\_\_

ENW YSGOL/COLEG/MAES GWAITH \_\_\_\_\_

- RWYF WEDI BOD YN AELOD O'R BLAEN
- NID WYF AM DDERBYN GOHEBIAETH

Os oes gennych ddiddordeb mewn maes arbennig neu os am helpu'r Gymdeithas gydag unrhyw weithgareddau penodol, rhowch fanylion:

\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

## AELODAETH BARHAOL

Mae Cymdeithas yr Iaith yn dibynnu'n llwyr ar gyfraniadau gan ei haelodau er mwyn ariannu ei hymgyrchoedd dros y Gymraeg. Y ffordd orau o gyfrannu at incwm cyson i'r Gymdeithas yw drwy lenwi archeb banc. Hefyd, drwy gyfrannu fel hyn bydd eich aelodaeth yn parhau gyhyd â'r archeb banc, felly does dim angen cofio ail-ymaelodi bob blwyddyn!

## ARCHEB BANC

Hoffwn fod yn aelod o Gymdeithas yr Iaith a chyfrannu drwy archeb banc.

ENW'R BANC \_\_\_\_\_

CYFEIRIAD Y BANC \_\_\_\_\_

ENW'R CYFRIF \_\_\_\_\_

RHIF Y CYFRIF \_\_\_\_\_

CÔD DIDOLI \_\_\_\_\_

Yr wyf yn eich awdurdodi i dalu i gyfri **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**, Rhif **81072102**, Banc HSBC, 24 Sgwâr y Castell, Caernarfon **40-16-02**.

AR Y CYNTAF O FIS \_\_\_\_\_ YN Y

FLWYDDYN \_\_\_\_\_ AC WEDI HYNNY BOB MIS Y SWM O

£1  £2  £5  £10  £20  £25

ARALL: £ \_\_\_\_\_

ARWYDDWYD \_\_\_\_\_

DYDDIAD \_\_\_\_\_

## AELODAETH DROS DRO

Os dymunwch, gallwch ymaelodi am flwyddyn yn unig:

- Myfyriwr ysgol / chweched £3
- Myfyriwr coleg £6
- Di-gyflog £6
- Pensiynwyr £6
- Gwaith llawn amser £12
- Aelodaeth teulu (plant dan 16) £24

Nifer oedolion \_\_\_\_\_ Nifer o blant \_\_\_\_\_



# PENWYTHNOS CYFARFOD CYFFREDINOL CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

## NOS WENER 24 MAWRTH

### Y DDEDDF DERFYSGAETH A'I HEFFAITH AR FUDIADAU PROTEST

Siaradwr gwadd: y cyfreithiwr Hywel James

**Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth, 19:00**

### GIG: Y DERWYDDON, AC ERAILL

Tafarn y Cŵps, Aberystwyth, 21:00

## DYDD SADWRN 25 MAWRTH

### Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Canolfan Morlan, Aberystwyth, 10:00 – 16:00

### DEDDF IAITH YN GWNEUD GWAHANIAETH – PROFIAD CATALONIA

Siaradwraig wadd: Alexia Bos Solé, Ciemen, Barcelona

**Canolfan Morlan, Aberystwyth, 14:00**

RHAN O GYFARFOD CYFFREDINOL Y GYMDEITHAS, GROESO I BAWB!